COFNODION CYFARFOD Y  PWYLLGOR RHEOLI DATBLYGIADAUA GYNHALIWYD AR FFURF HYBRID YN SIAMBR Y CYNGOR - Y SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PEN-Y-BONT AR OGWR, CF31 4WB AR DDYDD IAU, 4 CHWEFROR 2024 AM 10:00

Yn bresennol

Y Cynghorydd R M Granville – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| A R Berrow | N Clarke | H Griffiths | D T Harrison |
| M L Hughes | D M Hughes | J E Pratt | A Wathan |

Yn Bresennol yn Rhithiol

| | | | |
|---|---|---|---|
| S J Griffiths | M R John | M J Kearn | W J Kendall |
| J Llewellyn-Hopkins | R Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

R J Collins, C L C Davies a S Easterbrook

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Rhodri Davies | Rheolwr Rheoli Datblygiadau ac Adeiladu |
| Gillian Dawson | Swyddog Cyfreithiol |
| Alex Fitzpatrick | Rheolwr Tîm Lleoliadau |
| Craig Flower | Arweinydd Tîm Cefnogi Cynllunio |
| Stephen Griffiths | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Oscar Roberts | Prentis Gweinyddu Busnes - Gwasanaethau Democrataidd |
| Euan Sexton | Uwch Swyddog Cynllunio |
| Robert Morgan | Swyddog Priffyrdd a Thrafnidiaeth |
| Leigh Tuck | Swyddog Priffyrdd a Thrafnidiaeth |
| Dion Douglas | Uwch Swyddog Cynllunio |

**2. Datganiadau o Fuddiant**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Datganwyd y buddiant canlynol:-<br><br>Y Cynghorydd Della Hughes – Buddiant sy'n rhagfarnu - Eitem 8 ar yr Agenda – Siaradodd y Cynghorydd Hughes yn ffurfiol (fel yr aelod dros yr Etholaeth) yn y cyfarfod ar y cais, ond yna gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater wrthi'n cael ei ystyried.<br>Y Cynghorydd Alan Wathan - Buddiant personol - Eitem 9 ar yr Agenda - Fel Aelod o Gyngor Tref Pen-y-bont ar Ogwr ond na chymerodd unrhyw ran mewn materion yn ymwneud â chynllunio.<br>Y Cynghorydd Richard Williams - Buddiant sy'n rhagfarnu - Eitem 9 ar yr Agenda - Gan ei fod yn adnabod Gwrthwynebydd i'r cais.<br>Y Cynghorydd Mark John - Buddiant personol - Eitem 12 ar yr Agenda - Fel aelod dros yr Etholaeth. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

## 3. Ymweliadau Safle

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Cytunwyd ar 29/04/2024 a 15/05/2024 fel dyddiadau ar gyfer yr arolygiadau safle arfaethedig gafodd eu hadnabod cyn y cyfarfod Pwyllgor nesaf gan y Cadeirydd/Aelodau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

## 4. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu dyddiedig 22/02/ 2024 fel gwir gofnod manwl gywir. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

## 5. Siaradwyr Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Bod y siaradwyr cyhoeddus canlynol yn gweithredu ar eu hawl i siarad, yn eu tro, ar y ceisiadau a nodir |

| | |
|---|---|
| | isod:-<br><br>P/22/32/FUL - Y Cynghorydd Della Hughes<br>P/22/753/FUL - Y Cynghorydd Steven Bletsoe, H Walker (gwrthwynebydd) a J Cocks (ymgeisydd)<br>P/22/757/FUL - Y Cynghorydd Ian Spiller |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

**6. Taflen Ddiwygiadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw daflen Diwygiad ar gyfer y cyfarfod. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

**7. Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau, yn amlinellu Canllawiau'r Pwyllgor Rheoli Datblygiadau. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

**8. P/24/32/FUL - 67 Heol Sant Ioan, Cwm Ogwr, CF32 7BA**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Caniatáu'r cais uchod, yn unol â'r Amodau sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Ffurflen newid defnydd o ddefnydd dosbarth C3 tŷ annedd i C2 cartref gofal preswyl ar gyfer hyd ar 2 o blant |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

**9. P/23/753/FUL -14 Stryd y Parc, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4AX**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Gan fod yr Aelodau yn bwriadu gwrthod y cais uchod, y dylai'r cais i gael ei ailgyflwyno i'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor oedd wedi'i gynllunio, gan amlinellu'r rheswm awgrymedig ar gyfer y penderfyniad o'r fath i wrthod.<br><br>Cynnig<br><br>Newid defnydd o swyddfeydd (dosbarth defnydd B1) i Dŷ Amlfeddiannaeth (HMO) (dosbarth defnydd C4) gyda mwyafswm o 6 pherson. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

**10. P/23/757/FUL - 3 Llwyn Coch, Broadlands, CF31 5BJ**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y dylai'r cais uchod gael ei wrthod, oherwydd y rheswm a amlinellwyd yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau:<br><br>Cynnig<br><br>Cadw'r tŷ allan ar ochr y tŷ annedd. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

**11. Apeliadau**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: (1) Y dylid nodi'r pum apêl a dderbyniwyd ers i adroddiad ar Apeliadau gael ei gyflwyno i gyfarfod diwethaf y Pwyllgor |

| | |
|---|---|
| | Rheoli Datblygiadau, fel y manylir arnynt yn adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau.<br><br>(2) Y dylid nodi bod yr Arolygwr a benodwyd gan Weinidogion Cymru i bennu'r Apeliadau canlynol, wedi rhoi cyfarwyddyd y cadw at yr Hysbysiadau Gorfodi ac y dylai caniatâd cynllunio gael ei wrthod ar y ceisiadau y tybir iddynt gael eu gwneud o dan Adran 177 (5) o'r Ddeddf:-<br><br>A) Apêl Rhif - CAS-02688-Q5F5F6 (1986) – Testun yr Apêl – Porth heb ei awdurdodi honedig, 12 Pen Y Lan, Pen-y-bont ar Ogwr<br>B) Apêl Rhif - CAS-02690-P6Z3N2 (1987) – Testun yr Apêl – Porth heb ei awdurdodi honedig, 12 Pen Y Lan, Pen-y-bont ar Ogwr<br><br>(3) Bod yr Arolygwr a Apwyntiwyd gan Weinidogion Cymru i benderfynu ar yr Apêl ganlynol wedi rhoi cyfarwyddyd y dylid DIYSTYRU yr Apêl.<br><br>Apêl Rhif. - CAS-02920-L0R2H6 (1993) – Testun yr Apêl - Un tŷ annedd 3 llofft gyda thramwyfeydd mynediad: Tir y tu ôl i 17-21 Castle View, Pen-y-bont ar Ogwr |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

**12. P/23/218/FUL - Tir ym Mrynmenyn a Bryncethin, Pen-y-bont ar Ogwr - Pwyllgor Arbennig Hybont**

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynwyd adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, yn atgoffa Aelodau bod y Pwyllgor Rheoli Datblygu (DCC) a gynhaliwyd ar 7 Medi 2023 wedi penderfynu cynnal cyfarfod arbennig i benderfynu ar y cais uchod.<br><br>Roedd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (LPA) wrthi'n prosesu'r cais ar hyn o bryd. Roedd hyn yn wyneb graddfa'r datblygiad a'r lefel o wrthwynebiad a fynegwyd gan y cyhoedd a fyddai'n cyfiawnhau i'r Aelodau ystyried y cynnig mewn cyfarfod DCC Arbennig yn unol â'r Cod Ymarfer a fabwysiadwyd. Mae'r cais wedi cael ei ddiwygio fel bod y bibell hydrogen yn cael ei diddymu ac mae ymgynghoriad pellach wedi digwydd |

| | |
|---|---|
| | ynghylch hyn. Gan hynny cynigiwyd y dylid cynnal Pwyllgor Rheoli Datblygu Arbennig ar ddydd Llun 29ain Ebrill 2024.<br><br>Mae'r fformat drafft ar gyfer diwrnod y Pwyllgor Rheoli Datblygu Arbennig wedi cael ei drafod gyda'r Cadeirydd ac y mae fel y cynigiwyd yn y tabl y manylir arno yng nghorff yr adroddiad.<br><br>PENDERFYNWYD: Roedd aelodau eraill yn cytuno:<br><br>(1) Y dylid cynnal Cyfarfod Arbennig o'r Pwyllgor Rheoli Datblygu er mwyn ystyried Cais P/23/218/FUL ar 29 Ebrill 2024.<br>(2) Y dylai fformat ar gyfer diwrnod y Pwyllgor Rheoli Datblygu Arbennig fod fel y'i disgrifir yn yr adroddiad, ond y gallai gael ei newid yn ôl dymuniad y Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau.<br>(3) Y dylai hawliau siarad ar gyfer Gwrthwynebwyr gael eu hymestyn i 10 munud yr un ar gyfer dim mwy na thri unigolyn, a bod yr amser i'r Ymgeisydd ymateb hefyd i gael ei ymestyn i 10 munud.<br>(4) Y dylai'r Cadeirydd roi gwybod i'r Pwyllgor Rheoli Datblygu am unrhyw drefniadau amgen pe na bai'n bosib i'r cyfarfod ar 29 Ebrill 2024 gael ei gynnal. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

## 13. Cynllun Datblygu Lleol Newydd Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Grŵp - Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu, oedd wedi'i fwriadu i roi gwybodaeth i Aelodau Pwyllgor Rheoli Datblygu am statws presennol y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (LDR) a'r camau nesaf i'r Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG) cysylltiedig wrth symud ymlaen.<br><br>Amlinellwyd peth gwybodaeth gefndirol yn yr adroddiad ac yna cadarnhawyd bod Tîm Cynllunio'r Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio ar ddwyn ynghyd y dogfennau SPG, a fyddai, maes o law, yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor i'w hystyried. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy gyfres o weithdai, ac fel sy'n arferol ar hyn o bryd, gofynnir i Aelodau wirfoddoli i helpu gyda drafftio'r dogfennau SPG a gweithredu fel 'pencampwyr' yn y maes penodol hwnnw.<br><br>Eglurwyd bod yr SPGau yn cwmpasu ystod eang o feysydd arbenigol gan gynnwys cyfraniadau at dai fforddiadwy, darpariaeth gofod agored, addysg, parcio ceir a safonau cynllunio. Gellir canfod rhestr lawn o SPGau presennol yn y ddolen a gynhwysir ym mharagraff 3.2 o'r adroddiad. |

| | |
|---|---|
| | Cadarnhawyd bod peth o'r SPGau cyfredol wedi cael eu mabwysiadu yn gymharol ddiweddar ac mai ond ychydig iawn o newid a diweddaru fyddai angen ei wneud iddynt. Fodd bynnag, gallai fod yn ofynnol i newid rhai dogfennau SPG yn llwyr neu eu huno gyda SPGau eraill yn wyneb y Cynllun Datblygu Lleol newydd a'r newidiadau i ddeddfwriaeth gynllunio genedlaethol.<br><br>PENDERFYNWYD: Y dylai'r Pwyllgor nodi'r adroddiad. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

## 14. Cofnod Hyfforddiant

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | PENDERFYNWYD: Y dylid nodi adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau sy'n amlinellu sesiynau hyfforddiant sydd ar y gweill ar bynciau allweddol yn ymwneud â Chynllunio a Datblygu. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

## 15. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Penderfyniad | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Penderfyniad | 4 Ebrill 2024 |

Er mwyn arsylwi ymhellach ar y drafodaeth bellach a gafwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch y ddolen hon os gwelwch yn dda:

Daeth y cyfarfod i ben am